

ADRAN 2

Paratoi i gyflogi'r Cynorthwywyr Personol cywir

Mae rhai gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol a sefydliadau fel y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) yn gallu rhoi cyngor ac arweiniad ar recriwtio Cynorthwywyr Personol. Mae'n bwysig gofyn am gyngor ac arweiniad ar y broses recriwtio. Unig nod yr adran hon yw darparu gwybodaeth yn ymwneud â sut gallech asesu anghenion dysgu eich Cynorthwywyr Personol yn y cyfnod recriwtio, sy'n effeithio yn ddiweddarach ar y modd rydych yn eu cyflwyno i'w rôl newydd.

Cyn recriwtio Cynorthwy-ydd Personol, mae'n bwysig meddwl am yr agweddau, y sgiliau a'r wybodaeth fydd ei hangen ar eich Cynorthwywyr Personol. Gallai fod yn ddefnyddiol rhestru'r canlynol:

- y sgiliau rydych chi eisiau i'ch Cynorthwy-ydd Personol eu cael, fel gyrru, siarad Cymraeg neu iaith arall, sgiliau cyfathrebu da
- y tasgau yr hoffech i'ch Cynorthwy-ydd Personol eu gwneud, fel coginio prydau, hylendid personol a'r sgiliau y byddai eu hangen arnynt i wneud y rhain
- y rhinweddau personol y byddech yn eu gwerthfawrogi fel hyblygrwydd, dibynadwyedd, synnwyr digrifwch
- y gwerthoedd a'r agweddau y byddech yn eu disgwyl fel bod yn barchus, cael meddwl agored, bod yn onest ac ystyriol.

Canfu arolwg am yr hyn sy'n gwneud perthynas lwyddiannus rhwng cyflogwr unigol a Chynorthwydd Personol fod parch ac ymddiriedaeth ar y ddwy ochr yn hanfodol i allu gweithio a dysgu gyda'i gilydd.

<http://www.cgcymru.org.uk/cynorthwydd-personol/>

Wedyn, gallwch asesu p'un a oes gan ymgeiswyr y sgiliau a'r rhinweddau cywir neu p'un a fydd angen eu cynorthwyo i'w datblygu wedi iddynt gael eu cyflogi.

Bydd bod yn glir ynglŷn â'r hyn sydd ei angen arnoch gan eich Cynorthwy-ydd Personol - pa brofiad, sgiliau a gwybodaeth rydych yn chwilio amdanynt - yn eich helpu i ddod o hyd i'r unigolyn cywir i'ch cynorthwyo. Gellir bod wedi datblygu gwybodaeth a sgiliau mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft trwy brofiadau bywyd, hyfforddiant anffurfiol neu ffurfiol, neu gymwysterau. Efallai bod yn well gennych iddo/iddi ddysgu tra bydd yn gweithio gyda chi.

Mae'n bwysig cynnwys datganiad am eich disgwyliadau o ran dysgu a datblygu wrth ysgrifennu **swydd ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn**. Bydd y rhain hefyd yn adlewyrchu'r canlyniadau a nodwyd yn y cynllun a gytunwyd gyda'ch Awdurdod Lleol.

“Bydd disgwyl i chi ddatblygu sgiliau newydd a dysgu tra byddwch yn cael eich cyflogi. Bydd hyn yn cynnwys darllen, trafod, mynychu cyrsiau fel trin meddyginiaeth yn ddiogel a chymorth cyntaf mewn argyfwng.” Enghraifft o Swydd Ddisgrifiad ar gyfer Cynorthwy-ydd Personol

Mae cyfweld yn haws os byddwch yn paratoi ymlaen llaw. Ysgrifennwch restr o gwestiynau yn seiliedig ar y swydd ddisgrifiad a manyleb yr unigolyn. Gofynnwch i ymgeiswyr pam maent eisiau gweithio i chi, eu rhinweddau personol, eu profiad gwaith, dysgu a chymwysterau a mesurwch eu hatebion yn erbyn eich meini prawf. Meddyliwch yn ofalus sut gallwch chi gael gwybod am eu gwerthoedd a'u hagweddau. Gellir cael rhagor o arweiniad yn y canllaw **Partnership to Personalisation Guide**, Skills for Care. <http://www.skillsforcare.org.uk/Document-library/Employing-your-own-care-and-support/Partnerships-for-personalisation.pdf>

Mae'r **Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol** yn amlinellu'r safonau a ddisgwylir gan weithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n adlewyrchu'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n hanfodol ar gyfer gofal a chymorth o ansawdd da, fel pwysigrwydd cyfrinachedd. Gall fod yn adnodd defnyddiol wrth baratoi i recriwtio Cynorthwywyr Personol, a chyfweld â nhw.

<http://www.cgymru.org.uk/cod-ymarfer-proffesiynol/>

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor am y broses recriwtio lawn, cysylltwch â'r gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol yn eich ardal, eich awdurdod lleol neu'r Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).